

# CELFYDDYDAU YMDROCHOL



**Rhaglen ariannu 2024 i 2027**




**Canllaw hawdd ei ddarllen:**


Made with Photo Symbols®

BRIGHTON & HOVE INDEPENDENT ADVOCACY
SPEAK OUT

## Gwybodaeth



Rhaglen ariannu a chymorth newydd sbon yw **Celfyddydau Ymdrochol**.








Nod y rhaglen ariannu yw:

- cefnogi artistiaid **ar draws gwledydd Prydain** sy'n gweithio gyda thechnoleg i greu celf ymdrochol.
- annog artistiaid o **bob cefndir** i ddechrau gweithio gyda thechnoleg ymdrochol.
- cefnogi artistiaid gyda **gwahanol lefelau o brofiad** i archwilio, arbrofi ac estyn sut maen nhw’n gweithio.

## Beth yw Celfyddyd Ymdrochol?



Ystyr **celfyddyd ymdrochol** yw creu celf gan ddefnyddio technoleg mewn ffordd sy’n creu profiad diddorol i gynulleidfa.




Mae llawer o ystyron posib i gelfyddyd ymdrochol ac mae modd creu celfyddyd ymdrochol mewn gwahanol ffyrdd.












Gall olygu creu ‘realiti rhithwir’ neu brofiadau sy’n newid realiti i gynulleidfa:

- sy’n gallu bod yn amlsynhwyraidd
- sy’n gallu pontio'r bwlch rhwng gofodau ffisegol a digidol
- sy’n gallu cysylltu pobl â’i gilydd a’r amgylchedd
- sy’n gallu newid y ffordd rydyn ni’n meddwl ac yn creu celf

## Pam gwneud cais i’r gronfa?



Gallwch wneud cais am gyllid os ydych chi’n artist neu’n unigolyn creadigol sy’n chwilfrydig am ddefnyddio technoleg.




Does dim angen profiad o ddefnyddio technoleg arnoch chi na bod yn feistr ar dechnoleg (ond mae'n iawn os ydych chi).



Byddwn ni'n eich cefnogi i ddarganfod beth rydych chi am ei greu.








Gallwn eich helpu i wneud hyn drwy gymysgedd o'r canlynol:

- Cyllid
- Hyfforddiant
- Ymchwil a digwyddiadau


## Y cyllid



Mae'r **gronfa Celfyddydau Ymdrochol** yn darparu £3.6 miliwn ar gyfer artistiaid.




Mae hwn ar gael i artistiaid rhwng **2025 a 2027.**




Byddwn ni'n ariannu dros 200 o artistiaid yng ngwledydd Prydain drwy **3 ffrwd ariannu**:

1. **Archwilio**
2. **Arbrofi**
3. **Estyn**









## 1. Archwilio

Mae grantiau o **£5,000** ar gael ar gyfer artistiaid sydd heb ddim neu heb fawr ddim profiad ym maes celfyddydau ymdrochol. Bydd y ffrwd ariannu yma'n helpu artistiaid:

- i roi cynnig ar y celfyddydau ymdrochol
- i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth sylfaenol am y celfyddydau ymdrochol
- i gael profiad o weithiau celf ymdrochol
- i gwrdd â phobl eraill sy'n gwneud gweithiau celf ymdrochol ac archwilio posibiliadau i gydweithio





## 2. Arbrofi

Mae grantiau o **£20,000** ar gael ar gyfer artistiaid:

- sy'n barod i roi eu syniadau ar waith
- sydd am brofi eu gwaith gyda chynulleidfa





## 3. Estyn

Mae grantiau o **£50,000** ar gael ar gyfer artistiaid a sefydliadau:

- sydd eisoes yn datblygu prosiect celfyddyd ymdrochol


Bydd y cyllid yma'n helpu artistiaid i ddatblygu eu prosiect a'i symud ymlaen i'r cam nesaf



# Pwy sy'n gallu gwneud cais i'r gronfa?







18+




Gallwch wneud cais am grant Celfyddydau Ymdrochol:

- os ydych chi'n artist unigol neu'n ymarferydd creadigol
- os ydych chi'n sefydliad celfyddydol, yn gasgleb neu'n grŵp bach (deg o bobl neu lai ar gyfer Arbrofi. Hyd at 50 o bobl ar gyfer Estyn)
- os ydych chi'n byw yng ngwledydd Prydain
- os ydych chi'n 18+ oed
- os oes gennych gyfrif banc yng ngwledydd Prydain yn eich enw eich hunan

# Sut i wneud cais i'r gronfa




I wneud cais am grant, bydd angen i chi greu cyfrif ar ein gwefan.




Dyma ddolen i'n gwefan:

https://immersivearts.uk/cy/




Darllenwch ein canllaw cam wrth gam cyn i chi ddechrau eich cais:

https://immersivearts.uk/cy/home-welsh/#adnoddau




Os byddwch chi’n gwneud cais ar-lein, gallwch gadw eich cais a dychwelyd ato yn nes ymlaen. Does dim angen i chi orffen llenwi’r cais mewn un sesiwn.




Cofiwch lenwi pob adran angenrheidiol o’r ffurflen gais.

Cofiwch uwchlwytho’r holl ddogfennau rydyn ni’n gofyn amdanyn nhw cyn cyflwyno eich cais.



Os oes angen help arnoch gydag unrhyw beth, cysylltwch â ni.

# Pryd i wneud cais i'r gronfa




Mae'r rownd gyntaf o gyllid ar gyfer pob un o'r tair ffrwd ar agor tan **ganol dydd, dydd Llun 2 Rhagfyr 2024.**



## Amserlen Ariannu Rownd 1

| Ffrwd Ariannu | Dyddiad cau | Hysbysu ymgeiswyr | Amserlen y prosiect |
|---|---|---|---|
| **Archwilio** | 2 Rhagfyr 2024 | Chwefror 2025 | Mawrth – Awst 2025 |
| **Arbrofi** | 2 Rhagfyr 2024 | Chwefror 2025 | Mawrth – Tachwedd 2025 |
| **Estyn** | Mae gan y ffrwd yma ddau gam i'r broses ymgeisio, er mwyn helpu i ddiogelu amser ac egni artistiaid. | | |
| **Estyn Cam 1** Mynegi diddordeb | 2 Rhagfyr 2024 | Ionawr 2025 | Mawrth 2025 – Chwefror 2026 |
| **Estyn Cam 2** Cyfweliad | Chwefror 2025 | Chwefror 2025 | Mawrth 2025 – Chwefror 2026 |

# Sut i gael cymorth i wneud cais






Gallwch hefyd wneud cais i'r gronfa Celfyddydau Ymdrochol ar ffurf:

- Sain, fideo neu destun

Gallwch wneud cais:

- Yn Gymraeg, yn Saesneg neu yn Iaith Arwyddion Prydain







Mae'r canllawiau ymgeisio ar gael mewn gwahanol fformatau:

- Print bras
- Sain
- Yn Gymraeg ac yn Iaith Arwyddion Prydain








Cysylltwch os oes angen unrhyw gymorth arnoch i wneud cais. Er enghraifft,

- os oes angen dehonglwyr Iaith Arwyddion Prydain neu gyfieithwyr ar y pryd arnoch chi
- neu rywun i'ch helpu i ysgrifennu eich cais
- Mae'n bosib y gallwn ni ariannu gweithiwr cymorth os bydd eu hangen nhw arnoch chi i lunio eich cais.

# Sut i ofyn am gymorth hygyrchedd




Os oes angen y wybodaeth yma arnoch chi mewn fformat arall, neu os oes gennych gwestiynau eraill am hygyrchedd, gallwch chi:




- anfon e-bost info@immersivearts.uk



- neu ffonio neu anfon neges destun i **07926 699909.**

Dim ond yn ystod oriau swyddfa yn y dydd bydd staff ar gael i ateb y ffôn.



Os byddwch chi'n ffonio y tu allan i'r oriau hynny, gadewch neges ac fe wnaiff rhywun eich ffonio'n ôl.




Y dyddiad cau ar gyfer cael **cymorth hygyrchedd** yw

**4 Tachwedd 2024**




Mae hyn bedair wythnos cyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, sy'n rhoi ychydig o amser i ni wneud yn siŵr eich bod chi'n cael y cymorth sydd ei angen arnoch chi.

## Cael cymorth os byddwch yn ennill grant








Gall ymgeiswyr llwyddiannus gael cymorth i gymryd rhan yn y rhaglen os oes ei angen arnyn nhw.

Pan fydd hynny'n berthnasol byddwn yn darparu cyllid ychwanegol ar gyfer hyn.

## Rhagor o wybodaeth





Gallwch ddod o hyd i'r holl ganllawiau gwneud cais yma.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi am y rhaglen neu sut i wneud cais, cysylltwch â ni:

info@immersivearts.uk